<u>Ar ddydd Mawrth, 7 Rhagfyr, 2010</u> cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00pm
<u>PRESENNOL:</u> Cyng. D Sheppard (Cadeirydd); Mrs G Price; Mrs E Davies; R Owen; D R Morgan; T Lewis a'r clerc

2935 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng.T Davies; M Hughes; M Evans, D Jones a K Walker

2936 **Materion Personol:** Dim

2937 **Datgan Buddiant Personol** / **Rhagfarnol:** Dim

2938 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2010 fel cofnod cywir.

2939 **Adroddiad ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:** Mynychodd y Cyng. D R Morgan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyfeillion Cartref Tregerddan a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2010 a rhoddodd arno.

<u>Gohebiaeth</u>

2940 Mae **Adran Briffyrdd Ceredigion** wedi ysgrifennu i ddweud na fyddan nhw'n cyflenwi byrddau enwau ar gyfer stadau Garnwen a Dôl Helyg ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau ariannol.

2941 Mae **Aon Ltd Insurance** yn fodlon yswirio Elusennau, Sefydliadau Gwirfoddol a Neuaddau Pentref. PENDERFYNWYD anfon copi o'r llythyr i'r grwpiau perthnasol.

2942 Mae **BT** nawr am werthu'r cabannau ffôn yn Salem a Chwmsymlog i'r Cyngor am £1 yr un. PENDERFYNWYD holi i'r trigolion lleol a oedden nhw am eu cadw

<u>Materion Ariannol</u>

2943 **Archwilio Cyfrifon - Ffurflen Flynyddol:** Mae BDO, archwilwyr allanol y Cyngor wedi hysbysu'r Cyngor eu bod yn bwriadu cyflwyno tystysgrif ac adroddiad diamod mewn perthynas â chyfrifon ariannol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 ar ôl derbyn y Ffurflen Flynyddol wedi'i chwblhau.
Yn unol â chyfarwyddiadau'r Archwilwyr PENDERFYNWYD:
(i) Adran 4 – Cwblhau Cwestiwn K
(ii) Ail-gymeradwyo a chwblhau Adrannau 1 a 2 i'w llofnodi gan y Cadeirydd, ac
(iii) Anfon y dogfennau perthnasol ymlaen i BDO erbyn 10 Rhagfyr 2010.

2944 **Allianz plc:** I setlo hawliad yswiriant y Cyngor ar gyfer difrod i Reiliau'r Gofeb Rhyfel ym Mhenrhyncoch ym mis Tachwedd 2009, derbyniwyd siec o £1059 oddi wrth Allianz plc. Mae hyn yn cynrychioli costau trwsio'r rheiliau namyn ffi gormodedd o £125. PENDERFYNWYD talu'r siec mewn i'r cyfrif cyfredol.

2945 **HSBC:** Balans Cyfrif Cymunedol ar 13 Tachwedd 2010: £2,726.81

<u>Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol:</u>

2946 **Linda Griffiths:** Cyfieithu Tachwedd 2010: **£55.32** siec 1017

2947 **SLCC:** Ffi aelodaeth 2011: **£72** siec 1018

2948 **Cyng. D Sheppard:** Costau teithio i fynychu Cyfarfod Diogelwch y Bartneriaeth yn Aberaeron 11/11/10:
40 milltir: **£20.04** siec 1019

2949 **P Walker:** Cyflog Hyd-Rhag 2010: **£617. 24** siec 1020

2950 **GDYT:** Hurio stafell ar gyfer Cyfarfod ar 16 Tachwedd 2010: **£15** siec 1021

2951 **Talu biliau sy'n ddyledus:** PENDERFYNWYD awdurdodi'r clerc i drefnu i dalu dau fil sy'n ddyledus cyn diwedd Rhagfyr: (i) BT – bil ffôn y Cyngor (ii) A Hughes – gwaith cynnal a chadw.

<u>Cynllunio:</u> Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:

2952 **A100710:** Cais wedi'i gymeradwyo ar gyfer mynediad a chynllun – safle ger Glan Seilo, P/Coch

2953 **A100727:** Caniatâd wedi'i gymeradwyo ar gyfer annedd ar Llain 2 - safle ger Glan Seilo, Penrhyncoch

2954 **<u>Cadarnhawyd y bydd Cyfarfod nesa'r Cyngor ar ddydd Mawrth, 18 Ionawr 2011 yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm</u>**

2955 **Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda:**
<u>Biniau graean:</u> Mae'r bin a osodwyd ger Fferm Pencwm ar goll. Cafwyd cais i adleoli'r bin ar lôn Bwlch y Dderwen ar droed y lôn, a chais am fin ar gyfer Capel Madog.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45pm